OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 350

# Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023

## RHAN 2

## Newid Rhestrau Lleol

**Cynigion: cyffredinol**

**11.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 12, rhaid i gynnig ynghylch hereditament gael ei wneud o fewn y cyfnod o 4 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y cwblhawyd gwiriad mewn perthynas â'r hereditament.

(2) Rhaid i gynnig gael ei wneud drwy ei gyflwyno i'r SP—

(a) drwy ddefnyddio porth electronig yr SP, neu

(b) mewn modd arall y cytunir arno gyda'r SP.

(3) Y dyddiad y mae cynnig wedi ei wneud yw'r dyddiad y mae'n cael ei gyflwyno i'r SP.

(4) Rhaid i gynnig gynnwys—

(a) enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y cynigydd,

(b) seiliau'r cynnig gan gynnwys y manylion y seilir pob un o'r seiliau arnynt ("manylion seiliau'r cynnig"),

(c) manylion y newid arfaethedig i'r rhestr,

(d) y dyddiad y mae'r cynigydd yn haeru y dylai'r newid arfaethedig gael effaith,

(e) y dyddiad y cyflwynir y cynnig i'r SP,

(f) tystiolaeth i ategu seiliau'r cynnig, ac

(g) datganiad ynghylch sut y mae'r dystiolaeth yn ategu seiliau'r cynnig.

(5) Rhaid i gynnig ynghylch hereditament ("yr hereditament") a wneir ar y sail a nodir yn rheoliad 4(1)(e) gynnwys hefyd—

(a) dyddiad y penderfyniad am yr hereditament arall ("y penderfyniad"),

(b) enw'r tribiwnlys neu'r llys a wnaeth y penderfyniad,

(c) gwybodaeth i adnabod yr hereditament arall,

(d) y rhesymau y mae'r cynigydd yn credu bod y penderfyniad yn berthnasol i'r gwerth ardrethol neu i wybodaeth arall a ddangosir yn y rhestr ar gyfer yr hereditament, ac

(e) y rhesymau y mae'r cynigydd yn credu, oherwydd y penderfyniad, fod y gwerth ardrethol neu wybodaeth arall a ddangosir yn y rhestr ar gyfer yr hereditament yn anghywir.

(6) Os gwneir cynnig ar un neu ragor o'r seiliau a nodir yn rheoliad 4(1)(a) i (g) ac (i) i (l) a bod yr hereditament wedi ei feddiannu o dan les, hawddfraint neu drwydded i feddiannu (neu, pan fo is-baragraff (c) yn gymwys, wedi ei feddiannu felly), rhaid i'r cynnig gynnwys hefyd—

(a) pan fo'r cynigydd yn feddiannydd, y swm sy'n daladwy bob blwyddyn gan y cynigydd, ar y dyddiad y gwneir y cynnig, mewn cysylltiad â'r les, yr hawddfraint neu'r drwydded i feddiannu, y dyddiad y daeth y swm hwnnw'n daladwy gyntaf a manylion unrhyw gyfnodau di-rent;

(b) pan nad yw'r cynigydd yn feddiannydd ond ei fod yn PB mewn perthynas â'r hereditament hwnnw, y swm sy'n daladwy bob blwyddyn i'r cynigydd, ar y dyddiad y gwneir y cynnig, mewn cysylltiad â'r les, yr hawddfraint neu'r drwydded i feddiannu, y dyddiad y daeth y swm hwnnw'n daladwy gyntaf a manylion unrhyw gyfnodau di-rent;

(c) pan nad yw'r cynigydd yn PB mewn perthynas â'r hereditament hwnnw, y swm a oedd yn daladwy bob blwyddyn gan y cynigydd neu i'r cynigydd (yn ôl y digwydd), ar y diwrnod olaf yr oedd y cynigydd yn PB o'r fath, mewn cysylltiad â'r les, yr hawddfraint neu'r drwydded i feddiannu, y dyddiad y daeth y swm hwnnw'n daladwy gyntaf a manylion unrhyw gyfnodau di-rent.

(7) Ni chaiff cynnig ymdrin â mwy nag un hereditament ond—

(a) os caiff ei wneud ar y sail a nodir yn rheoliad 4(1)(k) neu (l), neu

(b) pan fo'r person sy'n gwneud y cynnig yn gwneud hynny yn yr un swyddogaeth mewn perthynas â phob hereditament a bod pob hereditament o fewn yr un adeilad neu'r un cwrtil.

(8) Caniateir i gynnig a wneir ar y sail a nodir yn rheoliad 4(1)(d) neu (f) gynnwys cais am y naill neu'r llall o'r canlynol neu'r ddau ohonynt—

(a) adfer y rhestr i'w chyflwr cyn i'r newid gael ei wneud;

(b) newid pellach i'r rhestr mewn perthynas â'r hereditament.

(9) Yn ddarostyngedig i baragraff (10) ac (11), ni chaiff person ond gwneud cynnig i newid rhestr os yw wedi darparu cadarnhad i'r SP cyn y diwrnod y caiff y rhestr nesaf ei llunio.

(10) Ni chaiff person ond gwneud cynnig i newid rhestr ar y sail a nodir yn rheoliad 4(1)(d) neu (f) os yw wedi darparu cadarnhad i'r SP cyn—

(a) y diwrnod y caiff y rhestr nesaf ei llunio, neu

(b) diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â dyddiad y newid,

pa un bynnag sydd ddiweddaraf.

(11) Ni chaiff person ond gwneud cynnig i newid rhestr ar y sail a nodir yn rheoliad 4(1)(e) os yw wedi darparu cadarnhad i'r SP cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y rhestr nesaf ei llunio.